**Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg**

# *A1*

Mae'r cymhwyster hwn yn cyfateb â lefel A1 yn Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR)

---

**MANYLEB**

Mae CBAC yn aelod llawn o ALTE (Cymdeithas i Brofwyr Ieithoedd Ewrop), ac wedi derbyn marc ansawdd ALTE ar gyfer cyfres 'Defnyddio'r Gymraeg', sef yr arholiadau Cymraeg i Oedolion.

## CBAC Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio’r Gymraeg

Mae’r cymhwyster hwn ar lefel A1 yn Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR). Rheoleiddir y cymhwyster hwn gan Gymwysterau Cymru, ac nid yw ar gael i ganolfannau yn Lloegr. Mae’r cymhwyster hwn yn cydymffurfio â gofynion Amodau Cyffredinol Cydnabyddiaeth Cymwysterau Cymru.[1] Cyfeirir ato yma fel ‘Defnyddio’r Gymraeg: Mynediad’, er hwylustod.

**Cynnwys**


| | | | **Tudalen** |
|---|---|---|---|
| Crynodeb o’r Asesiad | | | 3 |
| 1. | **Rhagarweiniad** | | 4 |
| | 1.1 | Nodau ac amcanion | 4 |
| | 1.2 | Dysgu blaenorol a dilyniant | 4 |
| | 1.3 | Gwaharddiadau a gorgyffwrdd | 5 |
| | 1.4 | Cydraddoldeb a mynediad teg | 5 |
| | 1.5 | Oriau dysgu dan arweiniad (GLH) a chyfanswm amser cymhwyso (TQT) | 5 |
| 2. | **Cynnwys y pwnc** | | 6 |
| | 2.1 | Gwrando | 8 |
| | 2.2 | Siarad | 9 |
| | 2.3 | Darllen a Llenwi Bylchau | 11 |
| | 2.4 | Ysgrifennu | 12 |
| 3. | **Asesu** | | |
| | 3.1 | Amcanion asesu a phwysoli | 13 |
| 4. | **Gwybodaeth dechnegol** | | |
| | 4.1 | Cofrestru | 14 |
| | 4.2 | Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 14 |
| | 4.3 | Disgrifiadau cyrhaeddiad | 14 |
| Atodiad 1 | | Gridiau Asesu Siarad | 15 |
| Atodiad 2 | | Grid Asesu Ysgrifennu | 17 |
| Atodiad 3 | | Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) | 18 |


---

[1] Noddir yr arholiadau Cymraeg i Oedolion gan Lywodraeth Cymru drwy Gymwysterau Cymru.

**Crynodeb o'r Asesiad**

Manyleb linol yw hon, ac asesiadau pen tymor sydd i'r cymhwyster. Mae'r cyfle i sefyll yr arholiad ar ddyddiadau penodol bob blwyddyn. Asesir y cyfan yn allanol.

| | |
|---|---|
| 1. **Gwrando**<br><br>**Prawf Gwrando a Deall**<br><br>- Deialog<br>- Bwletin tywydd<br>- Amserau a phrisiau | 20% o'r cymhwyster |
| 2. **Siarad**<br><br>**Prawf Siarad**<br><br>- Darllen yn uchel<br>- Ateb cwestiynau<br>- Cwestiynau am y llun<br>- Cwestiynau i'r cyfwelydd | 55% o'r cymhwyster |
| 3. **Darllen a**<br>**Llenwi Bylchau**<br><br>**Prawf Darllen a Llenwi Bylchau**<br><br>- Hysbysebion<br>- Deialog<br>- Llenwi bylchau | 10% o'r cymhwyster<br>5% o'r cymhwyster |
| 4. **Ysgrifennu**<br><br>**Prawf Ysgrifennu**<br><br>- Cerdyn post<br>- Portread | 10% o'r cymhwyster |

**Rhif dynodi Cymwysterau Cymru:**
C00/0078/4

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Nodau ac amcanion

Anelir arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Mynediad at oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Mae'r arholiad yn benllanw astudio'r Gymraeg mewn dosbarthiadau am hyd at flwyddyn neu ddwy flynedd (gan ddibynnu ar ddwyster y cwrs), heb unrhyw wybodaeth flaenorol o'r iaith.

Mae'n bosibl i ymgeiswyr sydd wedi dysgu'n annibynnol sefyll yr arholiad, ond rhaid cofrestru i wneud hynny mewn canolfan sydd wedi ei chymeradwyo i ddarparu arholiadau Cymraeg i Oedolion.

Nod y cymhwyster yw rhoi arweiniad i gyflogwyr a darpar gyflogwyr am sgiliau Cymraeg y dysgwr, ac i roi meincnod i'r dysgwr ei hun o'i hyfedredd yn y Gymraeg. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus allu ateb cwestiynau syml amdano'i hun ar lafar. Rhoddir pwyslais mawr ar sgiliau llafar (siarad a gwrando), ac mae'r testunau a'r themâu'n addas i oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Mae hyn yn ei wneud yn wahanol i gymwysterau eraill ar y lefel hon.

Mae'r cymhwyster yn cyfateb i lefel A1 yn Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR), ac i Ddisgrifiad Lefel 3 o fewn lefel Mynediad Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Fe'i rheoleiddir gan Gymwysterau Cymru ac mae'n cwrdd â gofynion yr Amodau Cydnabyddiaeth Cyffredinol. Mae'n gymhwyster dynodedig.

Mae'r cymhwyster hwn yn annog dysgwyr:

- i ateb cwestiynau a gofyn cwestiynau syml mewn prawf Siarad;
- i ddangos dealltwriaeth o sgwrs, bwletin tywydd a hysbysiadau syml mewn prawf Gwrando;
- i ddangos dealltwriaeth o hysbysebion a deialog ysgrifenedig syml mewn prawf Darllen;
- i ddangos dealltwriaeth o strwythurau'r Gymraeg ar lefel syml drwy lenwi bylchau mewn brawddegau;
- i lunio cerdyn post a brawddegau am berson arall mewn prawf Ysgrifennu.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes rhaganghenion ar gyfer gweithio tuag at y cymhwyster hwn ac mae'n addas i ddechreuwyr sydd heb wybodaeth flaenorol o'r iaith. Dyma'r cyntaf mewn cyfres o arholiadau penodol i faes Cymraeg i oedolion.

## 1.3 Gwaharddiadau a gorgyffwrdd

Ni chaniateir i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, neu sydd wedi derbyn y rhan helaethaf o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg sefyll yr arholiad hwn, onid ydynt wedi gadael yr ysgol ers pum mlynedd neu fwy.

## 1.4 **Cydraddoldeb a mynediad teg**

Gall unrhyw ddysgwr astudio'r fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw, ei gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, (lle bo'n bosibl) nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddo nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cydgyngor Cymwysterau (JCQ): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC.

## 1.5 **Oriau dysgu dan arweiniad (GLH) a chyfanswm amser cymhwyso (TQT)**

Dyrannwyd nifer o Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH) i'r cymhwyster Tystysgrif Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg. Dyma nifer yr oriau dysgu dan arweiniad y mae CBAC yn disgwyl i ganolfannau eu darparu i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni'r cymhwyster. Amcan yw hyn, gan fod natur cyflwyno'r cymhwyster yn gallu amrywio. Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwyliwr neu arolygwr. Cyfanswm yr Oriau Dysgu dan Arweiniad a neilltuwyd i'r cymhwyster Tystysgrif Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg yw 135 o oriau.

Yn ogystal â'r Oriau Dysgu dan Arweiniad, mae CBAC hefyd yn pennu cyfanswm yr oriau disgwyliedig y bydd rhaid i ddysgwyr eu cyflawni er mwyn cwblhau'r cymhwyster. Cyfeirir at hyn fel Cyfanswm yr Amser Cymhwyso (TQT). Mae'r gweithgareddau sy'n cyfrannu at Gyfanswm yr Amser Cymhwyso yn cynnwys ymchwil annibynnol heb fod dan oruchwyliaeth, gwaith cwrs heb fod dan oruchwyliaeth, e-ddysgu heb fod dan oruchwyliaeth yn ogystal â'r holl Oriau Dysgu dan Arweiniad. Cyfanswm yr Amser Cymhwyso a neilltuwyd i'r cymhwyster Tystysgrif Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg yw 150 o oriau.

## 2. **Cynnwys**

Defnyddio'r Gymraeg: Mynediad yw'r cyntaf mewn cyfres o gymwysterau. Mae hwn yn asesiad o *hyfedredd cyffredinol* yr ymgeiswyr yn y Gymraeg, ac nid yn brawf ar wybodaeth o lyfr cwrs penodol.

Ceir manylion a chyfarwyddyd manwl am gynnwys ieithyddol a fyddai'n ddefnyddiol wrth baratoi i sefyll yr arholiad hwn yn y Cwrs Mynediad a'r 'Cwricwlwm Cymraeg i Oedolion' a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol:
Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion

Darperir fersiynau gwahanol (de a gogledd) o'r tasgau ar y papurau arholiad, gan ddilyn y ffurfiau a argymhellir yn y Cwricwlwm Cymraeg i Oedolion ac a ddefnyddir yn y llyfrau cwrs mwyaf cyffredin. Disgwylir i ymgeiswyr ddefnyddio'r ffurfiau y maen nhw'n gyfarwydd â nhw yn y profion cynhyrchiol, wrth siarad neu ysgrifennu. Mae canllaw penodol am yr eirfa graidd y disgwylir i ymgeiswyr ei gwybod ar y lefel hon i'w gael ar wefan CBAC:
Geirfa Graidd Mynediad
Mae'r rhestr yn cynnwys geirfa, ymadroddion a chydleoliadau y gellir eu defnyddio mewn profion Darllen a Gwrando, lle bo eitemau'n dibynnu ar ddealltwriaeth o eiriau penodol.

Isod, ceir rhestr gyfair o'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer lefel Mynediad, ynghyd â'r sgiliau y dylai ymgeiswyr eu hymarfer wrth baratoi i sefyll y profion:

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

I ennill y cymhwyster hwn, rhaid i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r isod fel y'u diffinnir ar gyfer lefel Mynediad:

- patrymau ac amserau'r Gymraeg
- ymadroddion defnyddiol
- cyfleoliadau
- geirfa sy'n berthnasol i'w hanghenion personol

### Sgiliau

**Gwrando**
Mae disgwyl i'r ymgeisydd allu:
- deall pwyntiau allweddol mewn deialog
- deall pwyntiau allweddol mewn bwletin tywydd
- adnabod prisiau ac amserau dechrau digwyddiadau o wrando ar hysbysiadau syml

**Siarad**
Mae disgwyl i'r ymgeisydd allu:
- darllen deialog syml yn uchel gan ynganu'n briodol
- ateb cwestiynau a rhai sgil-gwestiynau syml
- ateb cwestiynau syml am lun o berson
- gofyn cwestiynau syml i gael gwybodaeth gan gydsgwrsiwr

**Darllen**
Mae disgwyl i'r ymgeisydd allu:
- darllen hysbysebion i gael hyd i ffeithiau perthnasol i ateb cwestiynau syml
- darllen deialog syml gan ddeall ffeithiau arwyddocaol a bwriad y siaradwyr

**Ysgrifennu**

Mae disgwyl i'r ymgeisydd allu:

- ysgrifennu cerdyn post ar lefel elfennol, gan gynnwys sbardunau penodol
- ysgrifennu brawddegau digyswllt yn disgrifio person arall
- ysgrifennu'n gywir, gan ddefnyddio ystod elfennol o batrymau a geirfa

**Gwybodaeth ramadegol (Llenwi Bylchau)**

Mae disgwyl i'r ymgeisydd ddangos dealltwriaeth o ramadeg y Gymraeg ar lefel elfennol, gan gynnwys:

- defnyddio geirfa briodol ar sail sbardun gweledol;
- rhai treigladau elfennol;
- ymadroddion neu gydleoliadau elfennol (gw. rhestr eirfa graidd);
- rhai ffurfiau berfol elfennol;
- geiriau gofynnol priodol i gyd-destun;
- defnyddio rhai arddodiaid priodol, e.e. yn/mewn, i, o;
- rhai ffurfiau negyddol a gorchmynnol cyffredin.

3. **Gwrando** 80 marc

Mae'r rhan hon yn mesur gallu'r ymgeisydd i ddeall Cymraeg llafar. Mae'r pwyslais ar feithrin yr arfer o adnabod ffeithiau allweddol o destun neu sgwrs, heb ddeall o reidrwydd bob un gair ohoni. Rhaid ateb y cwestiynau yn Gymraeg lle bo angen geiriau (does dim angen brawddegau llawn) a defnyddio rhifau neu ffigurau lle bo'n briodol. Bydd y prawf fel arfer yn para tua 25-30 munud, yn dibynnu ar hyd y darnau a ddefnyddir. Mae tair rhan i'r prawf, wedi eu recordio ymlaen llaw, gyda bylchau rhwng y gwrandawiadau ac mae'r bylchau hyn ar y CD neu'r ffeil sain a ddefnyddir. Bydd cyfle i edrych ar y cwestiynau ar y dechrau, i glywed y darnau dair gwaith gyda bylchau rhwng y gwrandawiadau. Caniateir i'r ymgeiswyr ysgrifennu yn ystod y gwrandawiadau, os dymunant wneud hynny. Nid asesir cywirdeb orgraffyddol na gramadegol yr ymatebion, ond disgwylir i'r ymgeiswyr ymateb mewn ffordd sy'n dangos dealltwriaeth, lle bo angen atebion byrion. Ni chaniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio geiriadur yn ystod y prawf.

**Rhan 1 – Deialog** 40 marc

Yn Rhan 1, bydd yr ymgeiswyr yn clywed deialog syml yn trafod pwnc pob dydd, rhwng dau berson. Bydd rhaid dangos dealltwriaeth o brif ffeithiau'r sgwrs drwy ddewis un o bedwar opsiwn, e.e. symbolau neu luniau fel arfer, a rhaid rhoi'r llythyren sy'n cyfateb i'r wybodaeth yn y ddeialog yn y blwch priodol. Mae 8 cwestiwn, a rhoddir 5 marc am bob ateb cywir.

**Rhan 2 – Bwletin tywydd** 20 marc

Yn Rhan 2, bydd yr ymgeiswyr yn gwrando ar fwletin tywydd byr. Rhaid gorffen y brawddegau ar y papur arholiad, ar sail yr wybodaeth yn y bwletin. Mae 4 cwestiwn, a rhoddir 5 marc am bob ateb cywir.

**Rhan 3 – Amserau a phrisiau** 20 marc

Yn Rhan 3, bydd yr ymgeiswyr yn clywed pum hysbysiad am ddigwyddiadau cyffredin, gan gynnwys gwybodaeth am amser dechrau'r digwyddiad a'r pris. Rhaid ysgrifennu'r amserau a'r prisiau yn y blychau priodol ar y papur arholiad. Mae pum hysbysiad, a rhoddir dau farc am bob ateb cywir. Rhaid defnyddio rhifau yn y rhan hon, ac ni roddir marciau am ysgrifennu geiriau.

4. **Siarad** 220 marc

Nod y prawf hwn yw meithrin a mesur ynganu a sgiliau siarad yr ymgeisydd.

Bydd pob ymgeisydd yn cael cyfweliad llafar unigol â chyfwelydd nad yw'n ei adnabod a bydd pob cyfweliad yn cael ei recordio a'i asesu'n allanol. Bydd y prawf yn para tua 6-8 munud, a does dim cyfnod paratoi. Caiff yr ymgeisydd edrych ar Ran 1 ar Daflen yr Ymgeisydd yn yr ystafell gyfweld am hyd at dwy funud cyn dechrau'r prawf.

Mae 4 rhan i'r prawf siarad:

**Rhan 1 – Deialog** 40 marc

Yn Rhan 1, rhaid i'r ymgeisydd ddarllen deialog fer yn uchel gyda'r cyfwelydd. Asesir sgiliau ynganu'r ymgeisydd yma.

**Rhan 2 – Ateb cwestiynau** 80 marc

Yn Rhan 2, rhaid i'r ymgeisydd ateb 8 cwestiwn amdano/amdani'i hun. Bydd 6 o'r cwestiynau'n dod o'r rhestr isod. Gall y cyfwelydd ddefnyddio amrywiadau geirfaol, e.e. licio/hoffi i adlewyrchu'r ffurfiau a ddysgwyd.

| **Ffurfiau'r De** | **Ffurfiau'r Gogledd** |
|---|---|
| Ble dych chi'n byw? | Lle dach chi'n byw? |
| O ble dych chi'n dod yn wreiddiol? | O le dach chi'n dŵad yn wreiddiol? |
| Ble aethoch chi i'r ysgol? | Lle aethoch chi i'r ysgol? /Lle wnaethoch chi fynd i'r ysgol? |
| Beth yw/ydy'ch gwaith chi? | Be' ydy'ch gwaith chi? |
| Oes teulu gyda chi? | Oes gynnoch chi deulu? |
| Oes anifeiliaid anwes gyda chi? | Oes gynnoch chi anifeiliaid anwes? |
| Ble aethoch chi ar eich gwyliau diwetha? | Lle aethoch chi ar eich gwyliau diwetha? |
| Beth wnaethoch chi ddoe? | Be' wnaethoch chi ddoe? |
| Beth dych chi'n wneud y penwythnos nesa? | Be' dach chi'n wneud y penwythnos nesa? |
| Beth dych chi'n hoffi'i wneud yn eich amser sbâr? | Be' dach chi'n hoffi'i wneud yn eich amser sbâr? |
| Ble dych chi'n dysgu Cymraeg? | Lle dach chi'n dysgu Cymraeg? |
| Sut daethoch chi yma heddiw? | Sut ddaethoch chi i yma heddiw? /Sut wnaethoch chi ddŵad yma heddiw? |
| Beth dych chi'n ei hoffi ar y teledu? | Be' dach chi'n ei hoffi ar y teledu? |
| Beth mae'n rhaid i chi'i wneud yfory? | Be' mae'n rhaid i chi'i wneud yfory? |
| Sut mae'r tywydd heddiw? | Sut mae'r tywydd heddiw? |
| Sut roedd y tywydd ddoe? | Sut roedd y tywydd ddoe? |
| Am faint o'r gloch dych chi'n codi fel arfer? | Am faint o'r gloch dach chi'n codi fel arfer? |
| Beth o'ch chi'n hoffi'i wneud pan o'ch chi'n blentyn? | Be' oeddech chi'n hoffi'i wneud pan oeddech chi'n blentyn? |

Gellir disodli'r geiriau a danlinellir, e.e. Am faint o'r gloch dych chi'n mynd i'r gwely fel arfer? Yn ogystal â 6 chwestiwn o'r rhestr uchod, gofynnir 2 gwestiwn ymestynnol syml. Dyma enghraifft bosibl, e.e.

Cyfwelydd: Beth dych chi'n hoffi wneud yn eich amser sbâr?
Ymgeisydd: Dw i'n hoffi nofio.
Cyfwelydd: Ble dych chi'n hoffi nofio? / Lle dach chi'n hoffi nofio?
Ymgeisydd: Dw i'n nofio yn y ganolfan hamdden.

**Rhan 3 – Cwestiynau am y llun** 50 marc

Bydd y cyfwelydd yn gofyn 5 cwestiwn am y person a ddisgrifir ar daflen yr ymgeisydd. Rhaid i'r ymgeisydd ateb cwestiynau am y person ar sail y sbardunau a roddir, gan ddefnyddio brawddegau.

**Rhan 4 – Cwestiynau i'r cyfwelydd** 50 marc

Bydd y cyfwelydd yn gwahodd yr ymgeisydd i ofyn 5 chwestiwn ar sail sbardunau ar daflen yr ymgeisydd. Bydd y cyfwelydd yn ateb yn gryno, ond nid oes disgwyl i'r ymgeisydd gofnodi'r atebion. Daw'r sbardunau o'r rhestr isod:

byw
yn wreiddiol
enw
teulu
plant
car
gweithio
neithiwr
ddoe
heno
yfory
wythnos nesa
penwythnos nesa
wythnos diwetha
penwythnos diwetha
amser sbâr
gwyliau
tywydd
i swper
i frecwast
Ble/Lle
Pryd
Sut
Faint
mynd
o'r gloch
hoffi
cerdded
darllen
gallu/medru

**Asesu'r prawf Siarad**

Asesir gallu'r ymgeisydd i ynganu'n briodol yn Rhan 1. Bydd y marcwyr yn asesu'r pedair brawddeg ac yn rhoi marc allan o 10 am bob un. Dyma'r canllaw cyffredinol a ddefnyddir gan y marcwyr:

| | |
|---|---|
| Ynganu'n rhwydd ar gyflymdra naturiol | [10] |
| Ynganu'n dda ar gyflymdra derbyniol | [8] |
| Ynganu'n dderbyniol, er yn araf | [6] |
| Ynganu'n ddealladwy i raddau'n unig | [4] |
| Ynganu'n aneglur ac yn araf | [2] |

Asesir cywirdeb y brawddegau yn Rhan 2 a 3, a'r chywirdeb ffurfio'r cwestiynau yn Rhan 4, gan ddefnyddio'r disgrifyddion cyffredinol isod. Rhoddir marc allan o 10 am bob ateb.

| Mae'r ymgeisydd yn gallu: | |
|---|---|
| Ymateb mewn brawddeg gywir yn ddidrafferth | [10] |
| Ymateb yn gywir, ond gydag un gwall treiglo | [9] |
| Ymateb yn weddol gywir, ond gan wneud gwall bychan, e.e. hepgor 'yn' | [8] |
| Ymateb yn weddol gywir, ond gan wneud gwall sy'n effeithio ar yr ystyr e.e. Beth aethoch chi? | [6] |
| Ymateb yn briodol, ond gan ddefnyddio'r amser anghywir | [4] |
| Ymateb yn briodol, ond heb lunio brawddeg | [2] |

Derbynnir ffurfiau tafodieithol gwahanol fel rhai cywir, e.e. Sa i'n mynd adre...
Bydd y marcwyr yn defnyddio cynllun marcio manwl a fydd yn rhagweld atebion rhannol gywir ac yn nodi faint o farciau a ddyfernir.

5. **Darllen a Llenwi Bylchau** 60 marc

Mae'r prawf yn para 30 munud.

Nod y prawf hwn yw meithrin a mesur sgiliau darllen yr ymgeiswyr a'u dealltwriaeth o strwythurau'r Gymraeg mewn prawf llenwi bylchau. Rhaid ateb y cwestiynau yn Gymraeg, lle bo gofyn am iaith wrth ymateb, ond nid oes angen brawddegau llawn. Ni chaniateir i'r ymgeisydd ddefnyddio geiriadur wrth sefyll y prawf. Bydd 3 rhan i'r prawf, fel a ganlyn:

**Rhan 1 – Hysbysebion** 20 marc

Rhaid i'r ymgeisydd ddangos dealltwriaeth o hysbysebion, e.e. o'r math a geir mewn papurau bro neu bapurau lleol. Dylai'r ymgeiswyr fedru dethol yr wybodaeth angenrheidiol, yn hytrach na deall pob gair a dangos dealltwriaeth drwy ateb cyfres o gwestiynau ffeithiol yn seiliedig ar gynnwys yr hysbysebion. Ni chosbir ymgeiswyr am wallau sillafu a gramadeg.

**Rhan 2 – Deialog** 20 marc

Rhaid i'r ymgeisydd ddangos dealltwriaeth o brif bwyntiau deialog/sgwrs am bwnc pob dydd. Mae'r pwyslais ar fedru dethol yr wybodaeth angenrheidiol yn hytrach na deall pob gair. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd lenwi grid gwybodaeth yn seiliedig ar y ddeialog. Nid oes angen brawddegau llawn ac ni chosbir gwallau sillafu a gramadeg.

**Rhan 3 – Llenwi bylchau** 20 marc

Rhaid i'r ymgeisydd lenwi'r bylchau mewn cyfres o frawddegau digyswllt. Rhoddir sbardun mewn cromfachau lle bo hynny'n briodol neu ar ffurf llun. Mae 10 o frawddegau i gyd a rhoddir 2 farc am bob ateb cywir. Nodir yr amrywiadau posibl yn y cynllun marcio a berthyn i'r papur penodol.

6. **Ysgrifennu** 40 marc

Mae'r prawf yn para 30 munud.

Nod y rhan hon yw profi gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu Cymraeg i gyfleu gwybodaeth ffeithiol neu bersonol ar ffurf cerdyn post a chrynhoi gwybodaeth am berson arall ar sail sbardunau penodol, e.e. lluniau neu symbolau. Rhoddir 30 munud i gwblhau'r prawf hwn ac ni chaniateir i'r ymgeisydd ddefnyddio geiriadur yn ystod y prawf.

**Rhan 1 – Cerdyn post** 20 marc

Rhaid ysgrifennu rhwng 50 a 60 gair ar ffurf cerdyn post gan gynnwys geiriau/ymadroddion penodol. Nid oes angen i'r geiriau/ymadroddion hynny ddod yn y drefn y'u rhoddir a chaniateir i'r geiriau fod wedi'u treiglo, neu'n ferf gyda therfyniad, yn ôl cyd-destun y frawddeg, e.e. os oes sbardun fel 'gweld', derbynnir ateb yn cynnwys 'gwelais'.

**Rhan 2 – Portread** 20 marc

Yn y rhan hon, disgwylir i'r ymgeisydd ysgrifennu portread byr. Rhoddir gwybodaeth ffeithiol am berson yn y llun ar ffurf diagram neu lun. Rhaid i'r ymgeisydd lunio'r nifer priodol o frawddegau er mwyn cyfleu'r wybodaeth honno, yn y 3ydd person.

**Asesu'r prawf Ysgrifennu**

Ar gyfer Rhan 1, rhoddir marc allan o 10 a'i ddyblu i roi cyfanswm allan o 20, ar sail y disgrifiadau isod:

Mae'r ymgeisydd yn gallu:

| | |
|---|---|
| Ysgrifennu'n gwbl gywir a rhwydd (un neu ddau o fân wallau'n unig) | [10] |
| Ysgrifennu'n gywir ar y cyfan (un neu ddau o fân wallau ac un gwall cystrawen) | [8] |
| Ysgrifennu heb fod gwallau'n ymyrryd gormod (rhai mân wallau a dau wall cystrawen) | [6] |
| Ysgrifennu'n gywir ar adegau'n unig (ystyr yn aneglur weithiau) | [4] |
| Rhai geiriau cywir yn unig (ystyr yn aneglur a llawer o wallau sylfaenol) | [2] |

Yn Rhan 2, rhoddir hyd at 4 marc yr un am bob brawddeg, ar sail y disgrifiadau isod:

Mae'r ymgeisydd yn gallu:

| | |
|---|---|
| Ysgrifennu'n gwbl gywir ac yn gwbl briodol (dim gwallau) | [4] |
| Ysgrifennu'n eithaf cywir gyda mân wallau (e.e. gwall treiglo/sillafu) | [3] |
| Ysgrifennu'n eithaf cywir ond bod gwallau'n ymyrryd rhywfaint, (e.e. mae dau plant gdya hi, Mair ydy nyrs). | [2] |
| Ysgrifennu'n gywir i raddau ond gyda gwallau sylfaenol (e.e. amser anghywir) | [1] |

Bydd y marcwyr yn defnyddio cynllun marcio manwl penodol yn rhagweld atebion rhannol gywir ac yn nodi faint o farciau a ddyfernir. Tynnir 3 marc lle bo sbardun wedi ei hepgor neu heb fod dan reolaeth o gwbl. Dyma'r canllaw a ddefnyddir lle bo nifer y geiriau'n brin.

45-50 gair dim cosb
40-45 gair tynnu 4
35-40 gair tynnu 6
30-35 gair tynnu 8
25-30 gair tynnu 10
20-25 gair tynnu 12

## 3. **Asesu**

### 3.1 **Amcanion asesu a phwysoli**

| | **Amcanion asesu** | **Pwysoli** |
|---|---|---|
| **AA1** | • Profi bod yr ymgeisydd yn gallu gwrando ar ddarnau Cymraeg o fathau gwahanol fel deialog, bwletin tywydd neu hysbysiadau syml, gan adnabod ffeithiau allweddol | 20% |
| **AA2** | • Profi bod yr ymgeisydd yn gallu siarad Cymraeg gan ynganu'n ddealladwy, gan ateb cwestiynau syml a'u gofyn i gydsgwrsiwr yn gywir. | 55% |
| **AA3** | • Profi bod yr ymgeisydd yn gallu testunau gwahanol fel hysbysbion neu ddeialog gan adnabod ffeithiau allweddol. | 10% |
| **AA4** | • Profi bod yr ymgeisydd yn gallu ysgrifennu cerdyn post, a brawddegau byrion yn disgrifio person arall yn gywir. | 10% |
| **AA5** | • Profi dealltwriaeth yr ymgeisydd o ramadeg a geirfa'r Gymraeg ar lefel syml trwy lenwi bylchau mewn brawddegau. | 5% |

## 4. Gwybodaeth Dechnegol

### 4.1 Cofrestru

- Rhaid i bob ymgeisydd sefyll y profion yn un o'r canolfannau a gymeradwywyd gan CBAC i ddarparu'r cymwysterau Cymraeg i Oedolion.
- Gellir gwybodaeth am sut i gofrestru ar wefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: www.dysgucymraeg.cymru ac yn y llyfryn i ymgeiswyr.
- Rhaid cofrestru erbyn y dyddiad cau perthnasol. Nodir y dyddiad hwn ar wefan CBAC ac yn y llyfryn i ymgeiswyr.
- Mae llyfryn yr ymgeiswyr ar gael ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk), neu gellir cael copi caled trwy gysylltu â'r ganolfan arholi.
- Ar flwyddyn arferol, bydd cyfle i sefyll yr arholiad ar ddiwedd Ionawr, ac ym mis Mehefin (gyda'r dydd neu'r nos) ar ddyddiadau a bennwyd. Ni chaniateir i ymgeiswyr sefyll y profion ar ddiwrnodau eraill. Gall ymgeiswyr sefyll yr arholiad fwy nag unwaith.

### 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Dyfernir tystysgrif CBAC i bob ymgeisydd sydd yn llwyddo yn y cymhwyster hwn. Ni roddir graddau – Llwyddo neu Fethu yw'r unig raddau a ddyfernir ar y lefel hon.

Nid oes angen llwyddo mewn unrhyw brawf penodol i ennill y cymhwyster cyfan, a gall diffygion mewn un prawf gael eu cydbwyso gan ragoriaethau mewn profion eraill. Bydd llwyddo neu beidio'n dibynnu ar berfformiad yr ymgeisydd wedi ei fesur yn erbyn y disgrifiadau cyrhaeddiad.

Anfonir datganiad o'r marciau i'r canolfannau arholi ar gyfer pob ymgeisydd. Mae'r datganiad yn nodi canlyniadau'r ymgeisydd ym mhob prawf, a'r cyfanswm allan o 400. Pennir yr union drothwy llwyddo yn y cyfarfod dyfarnu. Anfonir tystysgrifau'r ymgeiswyr i'r canolfannau arholi ym mis Medi ar ôl yr arholiad.

### 4.3 Disgrifiadau Cyrhaeddiad

**Llwyddo**

Er mwyn Llwyddo, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu gwrando ar sgyrsiau, ar fwletinau tywydd ac ar hysbysiadau syml, ac adnabod ffeithiau allweddol ynddynt. Hefyd, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu ynganu'n ddealladwy wrth siarad, gan ateb cwestiynau am bynciau rhagweladwy, cyffredin a'u gofyn. Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu darllen testunau fel hysbysebion neu ddeialog syml gan adnabod ffeithiau allweddol. Wrth ysgrifennu rhaid dangos eu bod yn gallu ysgrifennu cerdyn post syml, a brawddegau'n disgrifio person arall yn gywir. Yn olaf, rhaid dangos dealltwriaeth o ramadeg y Gymraeg ar lefel elfennol.

**Methu**

Ni ellir dyfarnu cymhwyster i ymgeiswyr na fyddant yn cyrraedd y trothwy llwyddo.

## Atodiad 1

**Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru**

Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru'n disgrifio cyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr ar lefelau gwahanol, gan gynnwys Mynediad 3:

> Mae cyflawni Mynediad 3 yn adlewyrchu'r gallu i ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth strwythuredig am dasgau, a dealltwriaeth i gyflawni tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd, gydag arweiniad priodol lle y bo'i angen.
> Defnyddio gwybodaeth neu ddealltwriaeth i gyflawni tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd.
> Gwybod a deall y camau sydd eu hangen i gwblhau tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd.
> Cyflawni tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd.
> Gydag arweiniad priodol, cymryd cyfrifoldeb dros ganlyniadau gweithgareddau strwythuredig.
> Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau mewn cyd-destunau cyfarwydd.

Mae'r disgrifiad yn adlewyrchu gofynion y cymhwyster hwn, lle disgwylir i ymgeiswyr ddefnyddio'r iaith, cofio patrymau a geirfa gan gyfathrebu i gwblhau tasgau cyfyng a diffiniedig eu natur. Cwestiynau sy'n gofyn am wybodaeth bersonol a ofynnir, o fewn cyd-destunau cyfarwydd bywyd pob dydd.

**Fframwaith Cyfeirio Cyngor Ewrop ar gyfer Ieithoedd:**
**Dysgu, addysgu, asesu[2] (CEFR)**

Mae'r cymhwyster hwn yn perthyn i lefel A1 yn Fframwaith Cyfeirio Cyngor Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Rhoddir enghreifftiau isod, lle mae'r arholiad yn amlygu nodweddion lefel A1. Cyfeirir at rai o'r graddfeydd a ddefnyddir yn y fframwaith hwn i ddiffinio medrau dysgwyr ar lefel A1, gan gynnwys y sgiliau i gyd.

| |
|---|
| **Y raddfa eang ('global scale')** (t.24)<br>A1 Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd pob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn sydd yn anelu at ateb anghenion diriaethol eu natur. Yn gallu ei gyflwyno'i hun/ei chyflwyno'i hun ac eraill, ac yn gallu gofyn ac ateb cwestiynau am fanylion personol, fel ble mae e/hi'n byw, y bobl mae e/hi'n eu nabod, a'r pethau sydd ganddo/ganddi. Yn gallu rhyngweithio mewn ffordd syml, ond i'r person arall siarad yn araf ac yn glir, a'i fod yn barod i helpu. |
| Mae gofynion y prawf Siarad yn meithrin gallu'r ymgeisydd i ddefnyddio ymadroddion cyfarwydd a sylfaenol i'r Gymraeg, yn bennaf yn ymdrin ag anghenion pob dydd. Yn y prawf, bydd yr ymgeisydd yn gallu ateb cwestiynau am fanylion personol a'u gofyn, gofyn cwestiynau am bobl eraill a'u hateb a sôn am eiddo a theulu. |
| **Rhyngweithio llafar cyffredinol** (t.74)<br>Yn gallu cydadweithio mewn ffordd syml, ond mae cyfathrebu'n dibynnu ar ailadrodd yn arafach, aralleirio a thrwsio. Yn gallu gofyn cwestiynau hawdd a'u hateb, cychwyn â gosodiadau syml ac ymateb iddynt mewn meysydd yn ymwneud ag anghenion uniongyrchol a phynciau cyfarwydd. |
| Disgwylir i ymgeiswyr fedru cydsgwrsio â siaradwr rhugl, sef y cyfwelydd llafar yn y prawf Siarad. Mae gofyn iddynt ofyn cwestiynau yn ogystal â'u hateb, ar bynciau pob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol, sylfaenol. |
| **Siarad** |
| **Deall cydsgwrsiwr brodorol** (t.75)<br>Yn gallu deall ymadroddion pob dydd wedi eu hanelu at anghenion syml diriaethol eu natur, wedi eu dweud yn union ato/ati mewn iaith glir, araf a ailadroddir, gan siaradwr sydd â chydymdeimlad. Yn gallu deall cwestiynau a chyfarwyddiadau wedi eu cyfeirio'n ofalus ac yn araf ato/ati, gan ddilyn cyfeiriadau byrion, syml. |

[2] Cyfeirir at y fersiwn Saesneg, *Common European Framework of Reference for Languages: Learning, teaching, assessment*, 2001, Cyngor Ewrop, Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

| |
|---|
| Rhaid i'r ymgeisydd ddeall cyfwelydd llafar (sy'n siaradwr rhugl) i ymateb i'r cwestiynau yn y prawf Siarad. Mae'r cwestiynau am anghenion syml eu natur, a'r cyfwelydd yn holi mewn iaith glir gan ailadrodd lle bo angen. |
| **Sgwrsio** (t.76)<br>Yn gallu cyflwyno a defnyddio ymadroddion cyfarch a ffarwelio sylfaenol. Yn gallu gofyn sut mae pobl ac ymateb i newyddion. Yn gallu deall ymadroddion pob dydd sydd wedi eu hanelu at ateb gofynion syml diriaethol eu natur wedi eu dweud yn union ato/ati mewn iaith glir, araf a ailadroddir, gan siaradwr sydd â chydymdeimlad. |
| Disgwylir i ymgeiswyr ddefnyddio ymadroddion cyfarch a ffarwelio yn y prawf Siarad (er nad yw hynny'n cael ei asesu'n uniongyrchol), holi ac ateb cwestiynau, sy'n ddiriaethol eu natur, ac wedi ei anelu ato/ati mewn iaith glir, bwrpasol, gan gydsgwrsiwr cydymdeimladol. |
| **Trafodion i gael nwyddau a gwasanaethau** (t.80)<br>Yn gallu gofyn i bobl am bethau a rhoi pethau i bobl. Yn gallu trin rhifau, meintiau, cost ac amser. |
| Rhaid i ymgeiswyr ddeall rhifau, cost pethau ac amser digwyddiadau yn y profion goddefol (Darllen a Gwarndo), a ffurfio cwestiynau cywir yn rhan olaf y prawf Siarad. Nid yw trafod 'meintiau' mor berthnasol yng nghyd-destun y Gymraeg ar y lefel hon. |
| **Cyfnewid gwybodaeth** (t.81)<br>Yn gallu deall cwestiynau a chyfarwyddiadau a ddywedir wrtho/wrthi'n ofalus ac yn araf, a dilyn cyfeiriadau byrion, syml. Yn gallu ateb cwestiynau syml a'u gofyn, gan gychwyn gosodiadau syml ac ymateb iddynt, mewn meysydd yn ymwneud ag anghenion uniongyrchol a phynciau cyfarwydd iawn. Yn gallu gofyn cwestiynau a'u hateb amdanynt eu hunain a phobl eraill, ble maen nhw'n byw, y bobl maen nhw'n eu nabod, y pethau sydd ganddynt. Yn dynodi amser drwy ddefnyddio ymadroddion fel wythnos nesa, dydd Gwener diwetha, ym mis Tachwedd, tri o'r gloch. |
| Mae cyfnewid gwybodaeth yn greiddiol i ran 3 y prawf Siarad, lle bo rhaid i ymgeisydd ateb cwestiynau am berson arall; yn rhan 4, rhaid gofyn cwestiynau i'r cydsgwrsiwr. Mae'r pynciau'n rhai cyfarwydd, diriaethol ac yn ymwneud â chefndir personol yr ymgeisydd, e.e. ble mae'n byw, beth sy ganddynt ac ati. Ceir adferfau amser, e.e. wythnos diwetha, nesa yn y rhestr o gwestiynau stoc a ofynnir gan y cyfwelydd yn y prawf. |
| **Cyfweld a chael cyfweliad** (t.82)<br>Yn gallu ateb cwestiynau byrion uniongyrchol am fanylion personol. Bydd y cwestiynau'n cael eu gofyn yn glir, mewn iaith lafar heb briod-ddulliau. |
| Mae hyn y cyfateb yn union i ofynion y prawf Siarad, ac mae'r cyfarwyddyd i'r cyfwelydd yn nodi bod angen gofyn cwestiynau'n glir mewn iaith lafar sydd ar lefel briodol. |
| **Gwrando cyffredinol** (t.66)<br>Yn gallu dilyn iaith lafar wedi ei mynegi'n araf ac yn groyw, gydag oedi hir iddo/iddi gael deall yr ystyr. |
| Mae prawf Gwrando yn rhan o'r arholiad, ac yn gofyn i ymgeiswyr allu adnabod ffeithiau allweddol mewn testunau amrywiol. Mae'r testunau hyn wedi'u recordio'n benodol ar gyfer y prawf, gan gynnwys fersiynau yn nhafodiaith y de neu'r gogledd, ar gyflymdra hygyrch. Rhoddir cyfleoedd i'r ymgeiswyr wrando eto, gydag oedi digonol rhwng y gwrandawiadau. |
| **Darllen a deall cyffredinol** (t.69)<br>Yn gallu deall testunau byrion syml, un ymadrodd ar y tro, gan godi enwau cyfarwydd, geiriau ac ymadroddion sylfaenol ac ailddarllen lle bo angen. |
| Disgwylir i ymgeiswyr ddarllen testunau byr, amrywiol eu natur (e.e. hysbysiadau, deialog), gan adnabod ffeithiau allweddol. Cânt ddigon o amser i ailddarllen, ac mae'r testunau'n cynnwys ymadroddion a geiriau ar y lefel briodol. Lle bo eitemau'n dibynnu ar ddeall gair neu ymadrodd penodol, byddant wedi'u tynnu o'r rhestr eirfa graidd. |
| **Ysgrifennu cyffredinol** (t.61)<br>Yn gallu ysgrifennu ymadroddion a brawddegau ar wahân. |
| Mae'r prawf Ysgrifennu'n gofyn i ymgeiswyr ysgrifennu ymadroddion unigol, yn hytrach na thestun estynedig, e.e. cyfres o frawddegau. Mae ysgrifennu cerdyn post yn un o'r enghreifftiau posib o ysgrifennu a restrir yn y disgrifyddion eraill ar lefel A1. |